Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 30/06/2022 i'w hateb ar 05/07/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

PRIF WEINIDOG

Tom Giffard *Gorllewin De Cymru*

1 OQ58287 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fynediad at wasanaethau deintyddol yng Ngorllewin De Cymru?

Gareth Davies *Dyffryn Clwyd*

2 OQ58331 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn Nyffryn Clwyd?

Sioned Williams *Gorllewin De Cymru*

3 OQ58305 **(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i wella trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngorllewin De Cymru?

Jenny Rathbone *Canol Caerdydd*

4 OQ58328 **(e)**

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran cynyddu nifer y disgyblion sy'n teithio i'r ysgol ar feic, ar sgwter neu drwy gerdded?

Carolyn Thomas *Gogledd Cymru*

5 OQ58318 **(e)**

Pa ganlyniadau y mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio eu cyflawni o'r cynllun peilot incwm sylfaenol cyffredinol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yng Ngogledd Cymru?

Hefin David *Caerffili*

6 OQ58327 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i blant ag anghenion dysgu ychwanegol?

Joel James *Canol De Cymru*

7 OQ58330 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen caffael seilwaith gwastraff Llywodraeth Cymru?

Paul Davies *Preseli Sir Benfro*

8 OQ58289 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r seilwaith trafnidiaeth ym Mhreseli Sir Benfro?

Laura Anne Jones *Dwyrain De Cymru*

9 OQ58312 **(e)**

Gyda phwy yr ymgynghorodd Llywodraeth Cymru wrth wneud asesiadau diogelu o ran menywod yn y broses o ddrafftio'r cynllun gweithredu LHDTC+ arfaethedig?

Ken Skates *De Clwyd*

10 OQ58296 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt metro'r gogledd?

Luke Fletcher *Gorllewin De Cymru*

11 OQ58313 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y posibilrwydd o ehangu'r cynllun cymorth tanwydd gaeaf?

Sian Gwenllian *Arfon*

12 OQ58322 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a Gweinidogion eraill am gynlluniau i wella canol dinas Bangor?